Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	**Darlithydd Iechyd yr Amgylchedd (Tai / Iechyd y Cyhoedd)**
Adran:	**Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd**
Lleoliad:	**Campws Llandaf**
Gradd:	**7 AB**
Cyflog:	**£40,322- £45,361 y flwyddyn**
Oriau:	**18½ awr yr wythnos (ffracsiynol 0.5)**
Deiliadaeth:	**Cyfnod penodol tan 31 Awst 2022**

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn un dangosol yn hytrach nag yn un rhagnodol, a bydd gweddill y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.

Crynodeb o'r Rôl:

Mae'r swydd hon yn un allweddol a fydd yn cyfrannu i uchelgeisiau Cynllun Strategol y Brifysgol 2017/18 – 2022/23

Bydd deiliad y swydd yn addysgu'n bennaf ar ystod o bynciau'n perthyn i Iechyd yr Amgylchedd. Yn benodol bydd gofyn iddo/iddi gyflawni deunydd ar gyfer modiwlau a fydd yn gysylltiedig â thai ac asesu risg o fewn y rhaglen BSc (Anrh) Iechyd yr Amgylchedd sydd wedi'i hachredu gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd.

Yn ogystal, gallai fod yn ofynnol i ddeiliad y swydd ddatblygu a chyflawni pynciau tebyg ar fodiwlau a fydd wedi'u cynnwys mewn rhaglenni eraill y bydd yr Ysgol yn eu datblygu a'u cynnig, yn benodol MSc Iechyd y Cyhoedd Cymhwysol ac MSc Iechyd, Diogelwch a Lles Galwedigaethol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Goruchwylio myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig
- Ymgymryd â gweithgareddau dysgu ac asesu cytunedig

- Cyflawni gwaith addysgu ar y rhaglenni BSc (Anrh) Iechyd yr Amgylchedd, MSc Iechyd y Cyhoedd Cymhwysol ac MSc Iechyd, Diogelwch a Lles Galwedigaethol
- Ymgymryd â gweithgareddau Ymchwil ac Arloesedd cytunedig o fewn y ddisgyblaeth

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

PROFFIL Y RÔL

Mae'r proffil rôl hwn yn un dangosol yn hytrach nag yn un rhagnodol, a bydd gweddill y dyletswyddau yn unol â'r contract cyflogaeth.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:
Goruchwylio myfyrwyr israddedig ac ôl raddedig

Cymorth dysgu ac addysgu
- Cynllunio deunydd addysgu a'i gyflwyno naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn y pwnc
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol
- Goruchwylio prosiectau myfyrwyr a/neu er enghraifft deithiau maes a, lle y bydd yn briodol, leoliadau
- Adnabod meysydd lle y bydd angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth bresennol
- Cyfrannu i waith cynllunio a datblygu amcanion a deunyddiau
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a rhoi adborth i'r myfyrwyr

Ymchwil ac ysgolheictod
- Arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesedd a fydd, o bosib, yn gallu creu incwm, rheoli cynhyrchion prosiectau, cyflawni canlyniadau a sicrhau effaith
- Gweithio gyda rhanddeiliaid y brifysgol i adnabod ffynonellau cyllid ar gyfer ymchwil ac arwain y broses o sicrhau'r arian
- Rheoli gwaith cyflawni prosiectau unigol a/neu gydweithredol ar amser ac o fewn y gyllideb
- Cymhwyso'r wybodaeth a gafwyd o waith ymchwil ac arloesedd yn ogystal ag ysgolheictod, i ddysgu ac addysgu a gweithgareddau allanol priodol
- Arwain gwaith dylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau a fydd wedi'u hadolygu gan gymheiriaid a/neu allbwn ymarferwyr, a/neu lledaenu canlyniadau ymchwil drwy ddefnyddio cyfryngau priodol eraill
- Rhoi cyflwyniadau mewn cynadleddau academyddion a/neu ymarferwyr yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill

Cyfathrebu
- Cyfleu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd

Cysylltu a rhwydweithio

- Bod yn rhan o rwydweithiau mewnol ac allanol a helpu i'w datblygu er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym maes dysgu ac addysgu

Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr a fydd â llai o brofiad a chynghori ar ddatblygiad personol
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellir disgwyl goruchwylio gwaith pobl eraill

Gwaith tîm

- Bod yn aelod cyfrifol o dîm, arwain mewn meysydd y cytunwyd arnynt, a datblygu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gydag aelodau eraill o'r staff
- Cydweithio gyda chydweithwyr i adnabod ac ymateb i anghenion myfyrwyr

Gofal bugeiliol

- Mae'n bosib y bydd disgwyl gweithredu yn diwtor modiwl
- Bod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn maes penodol
- Delio â phroblemau arferol a helpu cydweithwyr i ddatrys eu pryderon ynghylch cynnydd o ran ymchwil

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil
- Adnabod yr angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a chynnig ffyrdd i gael gwneud hyn
- Datblygu syniadau ar gyfer hybu'r pwnc a/neu'r maes ymchwil:
  - e.e. Datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd er mwyn lledaenu a defnyddio canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod
  - e.e. Bod yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu eich modiwlau a'ch dulliau asesu chi eich hun
  - e.e. Cydweithio â chydweithwyr i weithredu gweithdrefnau asesu
  - e.e. Rhoi cyngor i bobl eraill ar faterion strategol megis recriwtio myfyrwyr a marchnata
  - e.e. Cyfrannu i waith achredu cyrsiau a phrosesau rheoli ansawdd

Cynllunio a rheoli adnoddau

- A chithau'n arweinydd neu'n diwtor modiwl, byddwch yn cydlynu gyda phobl eraill (megis staff cymorth neu gydweithwyr academaidd) i sicrhau y caiff anghenion a disgwyliadau'r myfyrwyr eu diwallu
- Rheoli prosiectau a fydd yn ymwneud â'ch maes gwaith
- Cyfrannu i waith datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm

Gofynion synhwyrol, corfforol ac emosiynol

- Cydbwyso pwysau gofynion gweinyddol ac addysgu a therfynau amser gwahanol

Amgylchedd gwaith

- O fewn cyd-destun polisi iechyd a diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar y maes gwaith a lefel yr hyfforddiant a gafwyd, gallai fod disgwyl i chi gynnal asesiadau risg a bod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch pobl eraill

Arbenigedd

- Bod â digon o wybodaeth arbenigol eang a threiddiol yn y ddisgyblaeth i gael datblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu
- Defnyddio ystod o dechnegau cyflawni

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich contract. Mae'r brifysgol yn sefydliad dynamig, felly bydd angen gwneud newidiadau o bryd i'w gilydd. Gwneir pob newid wedi ymgynghori â deiliad y swydd. Ni fwriedir i Grynodeb y Dyletswyddau a'r Cyfrifoldebau fod yn rhestr hollgynhwysol o'r tasgau a wneir. Mae'n debygol y bydd angen cyflawni tasgau technegol cysylltiedig eraill yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Derbynnir y bydd cronfa wybodaeth a sgiliau arbenigol gan aelodau unigol o'r staff o ran y swydd y cân nhw eu penodi iddi. Yn ogystal, bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn disgwyl i bob aelod o'r staff gyfrannu i weledigaeth ac ethos y brifysgol ac ymddwyn yn broffesiynol a chwrtais ar bob adeg gan ganolbwyntio ar y myfyrwyr/cwsmeriaid. Dylai'r staff i gyd fod yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol a Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

MANYLEB Y PERSON

Teitl y Swydd: Darlithydd Iechyd yr Amgylchedd (Tai/ Iechyd y Cyhoedd)

Uned/Ysgol: Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

*Allwedd

A – Ffurflen Gais
I – Cyfweliad
T – Prawf

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESIR DRWY		
		A*	I*	T*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda a/neu gymhwyster proffesiynol perthnasol mewn Iechyd yr Amgylchedd neu bwnc perthynol	✓		
	Gradd Meistr mewn pwnc perthnasol	✓		
	Y gallu i gyflawni Statws Cymrawd yn rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn tair blynedd	✓	✓	
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	PhD mewn pwnc perthnasol	✓		
	Statws Cymrawd yn rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch	✓		
	Aelodaeth o gorff proffesiynol	✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Gwybodaeth o safon dda a fydd yn berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol	✓	✓	✓
	Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus	✓		
	Dealltwriaeth gadarn o bedagogeg	✓	✓	
	Dealltwriaeth gadarn o ymchwil / arloesedd a gweithgarwch ysgolheigaidd	✓	✓	
Gwybodaeth (Dymunol)	Cydnabyddiaeth genedlaethol/ryngwladol mewn pwnc arbenigol a maes proffesiynol	✓		

Sgiliau a Galluoedd	Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil ac i ddarparu cymorth dysgu	✓	✓	✓

sy'n gysylltiedig â'r rôl (Hanfodol)	Y gallu i gynllunio deunydd dysgu ac addysgu	✓	✓	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol	✓	✓	
	Y gallu i gefnogi datblygiad amcanion, prosiectau neu gynigion ymchwil		✓	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol er mwyn lledaenu casgliadau ymchwil		✓	
	Y gallu i gyfrannu i waith cyflawni Cynllun Datblygu'r Ysgol a datblygu gweithgareddau eraill yr Ysgol	✓	✓	
	Y gallu i gyflawni dyletswyddau gweinyddol mewn ffordd gywir ac amserol		✓	
	Y gallu i gynllunio baich gwaith a phrosiectau, ac i reoli adnoddau'n effeithiol	✓	✓	
	Y gallu i adnabod meysydd i'w gwella ac i ddefnyddio menter a sgiliau datrys problemau i wella perfformiad	✓	✓	
	Y gallu i arddel cyfrifoldeb dros nifer o feysydd allweddol megis bod yn diwtor modiwl a goruchwylio ymchwil ar lefel israddedig		✓	✓
	Y gallu i gyfleu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw ffyrdd – cyflwyniadau mewn cynadleddau, adroddiadau ar ganlyniadau, cyhoeddiadau, adborth ac ati	✓	✓	
	Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol yn rhan o dîm proffesiynol	✓	✓	
	Y gallu i gydweithio ar brosiectau ymchwil drwy ddatblygu partneriaethau		✓	
Sgiliau a Galluoedd sy'n gysylltiedig â'r rôl (Dymunol)				

Profiad â thâl/ di-dâl (Hanfodol)	Profiad o addysgu / ymchwil neu brofiad cyfatebol Profiad o ddenu neu o gynhyrchu arian/incwm drwy wahanol ffynonellau Profiad o weithio gyda phobl eraill yn goruchwylio / arwain / cefnogi / mentora	✓ ✓ ✓		
Profiad â thâl/ di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu ac ymchwilio mewn Addysg Uwch	✓		
Gofynion eraill (Hanfodol)	Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd		✓	
Gofynion eraill (Dymunol)	Y gallu i siarad Cymraeg	✓		